Mathemateg

9 i 11

# Sut i fesur coeden

- Mesur



## Dysgu blaenorol gofynnol

- Sut i amcangyfrif uchder a'r cysyniad o dalaf/byrraf ac ati
- Sut i ddenyddio tap mesur neu olwyn fesur fach i fesur pellteroedd mewn m/cm

## Canlyniadau Dysgu

- Defnyddio dyfeisiau mesur yn fanwl gywir i gyfrif pellter
- Defnyddio sgiliau rhesymu i wirio dibynadwyedd mesuriadau

## Offer


- Coed o uchder amrywiol
- Tapiau mesur neu olwynion mesur bychain

## Gweithgaredd

1. Gofynnwch i'r disgyblion ddewis coeden maen nhw eisiau ei mesur ac amcangyfrif ei thaldra i ddechrau.
2. Dylai'r disgyblion sefyll gyda'u cefnau at y goeden a dechrau cerdded i ffwrdd oddi wrthi.
3. Yn rheolaidd, rhaid iddyn nhw wyro ymlaen ac edrych yn ôl drwy eu coesau.
4. Gofynnwch iddyn nhw stopio pan fyddan nhw'n dod o hyd i'r man lle maen nhw'n gallu gweld pen uchaf y goeden. (Os oes awyr, maen nhw wedi mynd yn rhy bell!)
5. Mae'r pellter o'r pwynt hwnnw yn ôl i'r boncyff yr un fath ag uchder y goeden.

## Gwirio am ddealltwriaeth

- Cymharwch uchder y goeden sydd wedi'i gyfrif ag uchder gwrthrych hysbys a defnyddio rhesymu i'w brofi e.e. Ydi'r uchder yn gwneud synnwyr? Os ydi'r disgyblion yn 1.5m yn fras, ydi'r goeden 5 gwaith mor dal?
- Cofiwch ymarfer y dechneg drwy ei phrofi ar rywbeth rydyn ni'n gwybod ei uchder yn barod e.e. gôl pêl droed, adeilad yr ysgol ac ati. Mae hyn yn golygu bod posib mireinio'r dull.
- Defnyddiwch glinometr i wneud yn siŵr bod ongl 45º yn cael ei chreu o'r disgybl i dop y goeden.




## Beth yw'r ateb cywir?

- Mae'r dull yma'n gweithio oherwydd eich bod chi'n creu triongl ongl sgwâr sydd â dwy ochr o hyd cyfartal – cyn belled â'ch bod yn creu ongl 45º.

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890